**Grŵp Trawsbleidiol ar Glefydau Seliag a Dermatitis Herpetiformis**
**Cross Party Group on Coeliac Disease & Dermatitis Herpetiformis**

Dyddiad ac amser: Dydd Mawrth, 31 Ionawr, 12:00-13:00
Lleoliad: Zoom

*Yn bresennol: Rhun ap Iorwerth – Cadeirydd (RaI), Tristan Humphreys – Ysgrifennydd/Coeliac UK (TH), Fiona Newsome (FN), Claire Constantinou (CC), Gwawr James (GJ), Ian Severn (IS), Dr Geraint Preest (GP) , Russell George (RG), Dr Jill Swift (JS), Dr Richard Cousins (RC), Eleanor Wilson (EW), Mark Isherwood (MI)*

| Rhif | Eitem |
|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:**<br><br>Dr Ieuan Davies, Alison Jones, Rebecca Bowen, Llyr Gruffydd AS/MS |
| 2 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**<br>a. Newidiadau a chymeradwyo'r cofnodion<br>Cytunodd y grŵp fod y cofnodion yn gywir.<br>b. Materion sy'n codi<br>- Llythyr at y Gweinidog ynghylch: Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM)<br>Rhoddodd TH ddiweddariad ar y llythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol at Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, ynghylch cael mynediad at y cynllun prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM), a chafwyd ymateb cadarnhaol.<br><br>Diolchodd RaI i TH am y llythyr, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod yr addewidion hyn yn cael eu mynegi mewn du a gwyn.<br><br>- Oedi cyn cyfarfod Llywodraeth Cymru ynghylch cymorthdaliadau ar gyfer bwyd heb glwten<br>Dywedodd TH wrth y grŵp fod y cyfarfod wedi'i ohirio tan ddechrau mis Chwefror, gan nodi y bydd y diweddariadau cysylltiedig yn cael eu rhannu yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol.<br><br>- Trafodaeth am gyfarfodydd<br>Gofynnodd RaI a oedd y grŵp yn fodlon gyda'r drefn o gynnal cyfarfodydd rhithwir. Dywedodd RG ei fod wedi bod i nifer o gyfarfodydd hybrid llwyddiannus. Serch hynny, nododd ei bod yn bwysig cael technegydd TG wrth law, rhag ofn bod problemau technegol yn codi.<br><br>Cytunodd y Grŵp fod lefelau presenoldeb yn well ar gyfer digwyddiadau rhithwir, ond nododd hefyd ei fod yn braf gweld pobl yn y cnawd. Awgrymodd RaI y dylai'r cyfarfodydd barhau i gael eu cynnal ar-lein, ond mewn achosion lle byddai'n ddefnyddiol cyfarfod yn y cnawd, byddai modd trefnu hynny.<br><br>- Y farchnad bwyd heb glwten<br>Rhannodd IS wybodaeth â'r grŵp am y Farchnad Bwyd Heb Glwten yng Nghaerdydd ar 3 Mehefin, lle bydd 30-40 o gynhyrchwyr yn bresennol yn y Corner Stone Centre ger Marks & Spencer. |

| | |
|---|---|
| | Cytunwyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei hanfon at Coeliac UK, gyda’r nod o’i dosbarthu i'r grŵp ar ôl ei chadarnhau. |

| | |
|---|---|
| 3 | **Cyfarfod cyffredinol blynyddol**<br>a. Ethol swyddogion<br>Cafodd RaI ei ailethol yn Gadeirydd y grŵp (Enwebwyd gan: MI; Eiliwyd gan: MH). Cafodd TH o Coeliac UK ei ailethol yn ysgrifennydd y grŵp (Enwebwyd gan: MI; Eiliwyd gan: MH).<br>b. Cymeradwyo'r datganiad ariannol<br>Cymeradwywyd y datganiad ariannol. Eglurodd TH mai crynodeb yn unig oedd yr adroddiad o'r cyfarfodydd blaenorol, ac ni fu unrhyw wariant uniongyrchol. |
| 4 | **Cost, mynediad ac argaeledd**<br>a. Cyflwyno canfyddiadau rhagarweiniol prosiect cost Coeliac UK (FN)<br>Rhoddodd TH ychydig o wybodaeth gefndir byr am brosiect costau bwyd heb glwten Coeliac UK, sy'n edrych ar y faich ariannol sy'n gysylltiedig â bwyd heb glwten. Soniodd fod yr argyfwng costau byw yn ffocws penodol ar gyfer yr elusen, gyda gwaith parhaus yn mynd rhagddo yn y maes hwn hyd at 2023. Bydd y ffocws cychwynnol ar ragnodi, gan ganolbwyntio'n bennaf ar Loegr yn sgil penderfyniadau comisiynwyr i dynnu darpariaeth yn ôl yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd yr ail gam yn canolbwyntio ar ymgysylltu â manwerthwyr, a bydd y gwaith hwn yn gysylltiedig â'r cynllun cerdyn cymhorthdal yng Nghymru. Bydd yr adroddiad ar gostau i'w gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf.<br>Rhoddodd FN gyflwyniad ar ganfyddiadau Coeliac UK, gan gynnig rhannu'r adroddiad wedi iddo gael ei gyhoeddi.<br>b. Cwestiynau ac atebion<br>Pwysleisiodd CC bwysigrwydd mynediad ac argaeledd, a gofynnodd beth mae Coeliac UK yn ei wneud i fynd i'r afael a'r materion hyn. Soniodd FN fod y gwaith ar gostau yn rhan o brosiect ehangach sy'n edrych ar gostau, mynediad ac argaeledd a fydd yn cael ei archwilio'n fanylach yn ail gam yr ymgyrch. Dywedodd TH wrth y grŵp fod Coeliac UK yn bwriadu cynhyrchu arolwg ynghylch mynediad ac argaeledd mewn archfarchnadoedd. Bydd yn gofyn i gefnogwyr fynd i archfarchnadoedd i gwblhau'r arolwg. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd ag ail gam y gwaith ymgysylltu â manwerthwyr.<br>Gofynnodd RaI sut y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol gefnogi'r adroddiad ar gostau, a gofynnodd ac a ddylai'r grŵp fod yn paratoi i ymuno â'r ymgyrch. Dywedodd CC y byddai'n dda cael y byrddau iechyd i gymryd rhan yn y broses o hyrwyddo'r arolwg. Dywedodd RaI y gallai'r grŵp ddrafftio llythyr, i'w anfon gan RaI at y Byrddau Iechyd, yn gofyn iddynt hyrwyddo'r arolwg a rhannu gwybodaeth.<br>Cytunodd TH, a dywedodd y byddai Coeliac UK yn rhannu'r adroddiad â'r grŵp. Pwysleisiodd yr her sy'n gysylltiedig â fframio'r gwaith ymgysylltu yng Nghymru yn sgil yr atebion polisi gwahanol sy'n bodoli ar draws y DU. Fodd bynnag, dywedodd y byddai'r data'n ddefnyddiol ar gyfer llywio lefel y cymorthdaliadau o ran y cymhorthdal bwyd heb glwten yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| | Tynnodd GP sylw at bwysigrwydd atgyfnerthu rolau meddygon a chlinigwyr, a phwysigrwydd cydymffurfio ag anghenion dietegol, yn enwedig ymhlith gleifion y mae eu symptomau yn ysgafn. Mae cost yn chwarae rhan sylweddol o ran ymlyniad, a gall hyn arwain at ganlyniadau hirdymor i'r claf a'r GIG.<br><br>Roedd GP am wybod a fyddai modd i ddarparwr dielw ddod o hyd i gynnyrch GF mewn swmp ac yna ei ddarparu'n rhad.<br><br>Cytunodd CC â syniad GP, a gofynnodd a oedd Coeliac UK wedi cysylltu ag Ymddiriedolaeth Trussell er mwyn canfod nifer y bobl sy'n ceisio cael mynediad at fwyd heb glwten o fanciau bwyd a faint o fwyd sy'n addas at y diben. Ategodd RaI hyn, a gofynnodd a oedd unrhyw waith wedi'i wneud ar y cysylltiad rhwng cael diet heb glwten a thlodi.<br><br>Rhoddodd TH sicrwydd fod y mater hwn ar agenda Coeliac UK, gan nodi ei fod wedi trefnu cyfarfod ag Ymddiriedolaeth Trussell yn ystod yr wythnos i ddod. Tynnodd sylw hefyd at waith yr elusen mewn perthynas â datblygu adnoddau ar gyfer banciau bwyd sy'n ymwneud â chael diet heb glwten.<br><br>Cytunodd y grŵp fod angen i'r bobl sy'n fwyaf agored i niwed fod â'r gallu i gyrchu bwyd heb glwten. Gofynnodd RaI a fyddai modd i TH roi diweddariad ynghylch y cyfarfod gyda TT yn ystod y cyfarfod nesaf, a hynny er mwyn gweld beth allai'r grŵp ei wneud i helpu. Gofynnodd CC a fyddai modd i TT ddosbarthu taflenni ar gyfer cynhyrchion heb glwten, a gofynnodd sut y byddai modd defnyddio apiau fel 'Olio' a 'Too Good To Go' i gefnogi'r gymuned seliag. |
| 5 | **Gweithgarwch Seneddol**<br>a. Y wybodaeth ddiweddaraf am ail-sefydlu'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol yn San Steffan<br>Dywedodd TH fod y grŵp yn lansio ymchwiliad ar ddiagnosis yn yr wythnosau nesaf, ac y byddai unrhyw un sydd am gymryd rhan yn destun galwad am dystiolaeth<br><br>Bydd sesiynau tystiolaeth yn cael eu cynnal yn San Steffan, gyda'r bwriad o gyhoeddi adroddiad cyn toriad yr haf. Bydd y gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Serch hynny, bydd llawer o'r gwaith yn croesdorri, a bydd y gwaith hwn yn berthnasol i'r DU gyfan.<br>ac y byddai unrhyw un sydd am gymryd rhan yn destun galwad am dystiolaeth.<br><br>Bydd sesiynau tystiolaeth yn cael eu cynnal yn San Steffan, gyda'r bwriad o gyhoeddi adroddiad cyn toriad yr haf. Bydd y gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar<br>y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Serch hynny, bydd llawer o'r gwaith yn croesdorri, a bydd y gwaith hwn<br>yn berthnasol i'r DU gyfan.<br><br>b. Digwyddiad yn Senedd yr Alban<br>Dywedodd TH wrth y grŵp fod Coeliac UK yn gobeithio sicrhau bod Grŵp |
| | Trawsbleidiol yn cael ei sefydlu yn yr Alban, a bod digwyddiad yn ymwneud â diagnosis yn cael ei gynnal ar 9 Mawrth, gan gynnwys sgyrsiau gan Coeliac UK, hyrwyddwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, a chynrychiolwyr cleifion. Dywedodd RaI ei fod yn croesawu unrhyw syniadau ar gyfer ymchwiliadau i feysydd penodol, a holodd am y ffyrdd y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ryngweithio â'r grwpiau cyfatebol yn yr Alban a Lloegr. |

**Unrhyw fater arall**

6 Rhoddodd TH wybod i'r grŵp y byddai Wythnos Ymwybyddiaeth yn cael ei chynnal rhwng 15 a 21 Mai, gyda ffocws ar ddiagnosis.

Soniodd JS ei bod bellach wedi ymddeol, ac mai hwn fyddai ei chyfarfod olaf. Diolchodd RaI a TH iddi am y gefnogaeth sylweddol y mae hi wedi'i darparu dros y blynyddoedd.

## 7 Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol

Dywedodd RaI y byddai dyddiad yn cael ei rannu yn agosach at yr amser

| Camau i’w cymryd | Aelod |
|---|---|
| Rhannu gwybodaeth am y Farchnad Bwyd Heb Glwten â Coeliac UK, i’w dosbarthu i bawb | IS |
| Rhannu’r adroddiad ar y costau sy’n gysylltiedig â chael diet heb glwten | TH |
| Rhannu’r cofnodion a’r dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod nesaf | TH |